# EVANS, MARY ('Mari'r Fantell Wen '; 1735 - 1789), twyllwraig

**Enw:** Mary Evans
**Ffugenw:** Mari'r Fantell Wen
**Dyddiad geni:** 1735
**Dyddiad marw:** 1789
**Rhyw:** Benyw
**Galwedigaeth:** twyllwraig
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Cytunir mai o Fôn y daeth hi i Feirion, tua 1780 - yn ôl rhai, yn forwyn i offeiriad Maentwrog; yn ôl eraill, i fyw yn y Breichiau ar ochr Maentwrog o blwyf Llandecwyn. Awgrymir ymhellach mai o Sir Aberteifi yr hanoedd. Ymadawodd â'i g r (cyn symud o Fôn, ond odid), a chanlynodd ddyn arall. Eithr honnai hefyd ei dyweddïo i Grist; gorymdeithiodd i'r llan yn Ffestiniog mewn mantell goch, gyda gosgordd fawr, i'r 'briodas,' ac wedi hynny cynhaliwyd 'neithior briodas' mewn tafarn yn y pentref, a rhoddwyd iddi liaws o anrhegion. Ar y Suliau, gwisgai hi a'i dilynwyr fentyll gwynion, a chynhalient ddefodau ar ben y Manod a bryniau eraill. Ymledodd ei sect yn ddirfawr, yn Ffestiniog, ym Mhenmachno, ac yn ochrau Harlech - ar wahân i'w hofergoel, dywedir eu bod yn bobl ddigon diniwed a bucheddol. Bwriodd Mari ddiwedd ei hoes yn Nhalsarnau, lle y bu farw Yr oedd wedi cyhoeddi na byddai hi byth farw, ac am hynny cadwyd ei chorff yn hir heb ei gladdu. Ond claddu fu raid, yn Llanfihangel-y-Traethau, a gwelir ar ei bedd: 'Yma y claddwyd Mari Evans, Hydref y 28 yn y flwyddun 1789, yn 54 oed.' Bu ei dilynwyr am beth amser yn cadw darnau o'i dillad yn greiriau, ond darfu am y sect yn bur fuan.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau

Robert Jones (Rhoslan), *Drych yr Amseroedd* (Trefriw 1820)*Drych yr Amseroedd* (Trefriw 1820), 152-3

*Gweithiau Gethin sef casgliad o holl weithiau barddonol a llenyddol* (Llanrwst 1884), 257-8

D. Tecwyn Evans, *Atgofion Cynnar* (Tywyn 1950), 19

gwybodaeth gan Mr. John Lloyd, Llanbedr-ar-Artro

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Mari'r Fantell Wen

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q18535799

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu